# Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni

**Dyddiad: 1 Chwefror 2021**

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwyd Ynni**

## 1. Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi

**Cadeirydd:**

Mark Isherwood AS

**Aelodau o'r Senedd:**

Mike Hedges AS

Vikki Howells AS

Llyr Gruffydd AS

Helen Mary Jones AS

**Ysgrifenyddiaeth**

Ben Saltmarsh (NEA Cymru), Pennaeth NEA Cymru, National Energy Action (NEA) Cymru, Ystafell 4E, 1 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9HA. E-bost: ben.saltmarsh@nea.org.uk. Ffôn: 029 2022 9322/ 07720591403. (Ysgrifennydd Etholedig).

## 2. Cyfarfodydd blaenorol y Grŵp ers y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol diwethaf

### Cyfarfod 1.

***Dyddiad y cyfarfod:*** 23 Gorffennaf 2020 (Ar-lein ar Zoom)

***Yn bresennol:***

**Mark Isherwood AS** (Cadeirydd)
**Michael Anderson**, Ofgem
**Sumina Azam**, Iechyd Cyhoeddus Cymru
**Stephen Chamberlain**, Llywodraeth Cymru
**Matt Copeland**, NEA
**Jonathan Cosson**, Cymru Gynnes
**Ceri Cryer**, Age Cymru
**Phil Dawson**, E.ON.
**Steffan Evans**, Sefydliad Bevan
**Brian Hart**, NEA
**Mike Hedges AS**
**Sam Hughes**, Cyngor ar Bopeth
**Sion Jones**, Senedd Cymru
**Tudur Jones**, Llywodraeth Cymru
**George Jones**, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
**Crispin Jones**, Arbed am Byth
**Simon Lannon**, Prifysgol Caerdydd
**Fflur Lawton**, Smart Energy GB
**Michelle Lewis**, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
**Cheryl Martin**, Plant yng Nghymru
**Juliet Morris**, Gofal ac Atgyweirio Cymru
**Mike Potter**, NEA
**Bethan Proctor**, Cartrefi Cymunedol Cymru
**Daniel Roberts**, Ofgem
**Ben Saltmarsh**, NEA Cymru
**Adam Scorer**, NEA
**Joanna Seymour**, Cymru Gynnes
**Tim Thomas**, NRLA
**Jack Wilkinson-Dix**, Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
**Nigel Winnan**, Cyfleustodau Cymru a'r Gorllewin

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd***:

**Ffocws:**

Mae'r achosion o COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar gyllid cartrefi, yn enwedig i'r bobl hynny sydd eisoes yn cael trafferth gyda chostau gwasanaethau hanfodol. Wrth inni barhau i weithio trwy'r argyfwng a wynebu'r gaeaf, defnyddiwyd y cyfarfod hwn i drafod rhai o effeithiau uniongyrchol COVID-19, ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg, ar aelwydydd mewn tlodi tanwydd ac aelwydydd sydd mewn perygl o dloci tanwydd yng Nghymru. Roedd yn gyfle i rannu barn a phrofiadau ac i drafod beth y gellid ei wneud i helpu i leihau'r pwysau ar y rhai sy'n ei chael hi'n anodd i gadw'n gynnes ac yn iach.

Cafwyd cyflwyniad gan Ben Saltmarsh, Pennaeth NEA Cymru, ar:

- y camau cynnar a gymerwyd gan Lywodraeth y DU a'r diwydiant ynni i helpu i ddiogelu defnyddwyr;

- materion sy'n dod i'r amlwg sydd wedi cael eu nodi ac y bydd angen eu datrys cyn ail gyfnod clo posibl;
- dyledion ynni cynyddol; *a*
- phapurau polisi diweddar NEA, Galwad am Dystiolaeth a gwaith ehangach ar faterion perthnasol (gan gynnwys cynllun tlodi tanwydd arfaethedig newydd Llywodraeth Cymru).

Cafwyd cyflwyniad gan Sam Hughes, Ymchwilydd Polisi, Cyngor ar Bopeth, ar:

- yr effeithiau sy'n dod i'r amlwg y mae Cyngor ar Bopeth wedi'u nodi trwy ei waith, gan gynnwys ystadegau ar incwm cartrefi, dyled, hunan-ddatgysylltu a hunan-ddogni;
- arolwg *Facing the Cliff Edge* yng Nghymru; *a*
- threm ymlaen o ran materion parhaus a/neu ail gyfnod clo posibl, gan gynnwys opsiynau ynghylch y Gronfa Cymorth Dewisol a gwneud yn fawr o incwm.

Cafwyd cyflwyniad gan Sumina Azam, Pennaeth Polisi Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) ar:

- adroddiad ICC, *Gwella iechyd a llesiant yn ystod y gaeaf a lleihau pwysau'r gaeaf yng Nghymru*, sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio dull ataliol ac anelu at gyfoethogi cynllunio strategol;
- cyfraddau marwolaethau ychwanegol y gaeaf yng Nghymru a'r DU;
- ymyriadau ar sail tystiolaeth (gan gynnwys brechiadau hyd at welliannau effeithlonrwydd ynni);
- cynnydd yn nifer y derbyniadau brys i'r ysbyty, sydd ar ei huchaf ymysg pumed rhan fwyaf amddifad o boblogaeth Cymru;
- yr angen i fynd i'r afael â thlodi a thai o safon wael; *a*
- fframwaith gweithredu.

Cafwyd cyflwyniad gan Stephen Chamberlain a Tudur Jones, Adran Effeithlonrwydd Ynni Domestig a Thlodi Tanwydd, Llywodraeth Cymru, ar:

- statws diweddaraf cynlluniau i ymgynghori ar gynllun tlodi tanwydd newydd ar gyfer Cymru, a ohiriwyd yn fwyaf diweddar oherwydd COVID-19;
- gwelliannau diweddar i'r Gronfa Cymorth Dewisol;
- y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Rhaglen Cartrefi Cynnes yn ystod y cyfnod clo, gan gynnwys Peilot Amodau Iechyd y Cynllun Nyth;
- cynnydd yn yr amcangyfrifon o dlodi tanwydd;
- ymchwiliad Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd i dlodi tanwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru; • Ymgysylltiad y

Gweinidog â’r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar y Gostyngiad Cartrefi Cynnes; *a*
- gwasanaethau cyngor a chymorth o ran ynni.

Atebwyd cwestiynau. Daeth y cyfarfod i ben gydag etholiad diwrthwynebiad Ben Saltmarsh, Pennaeth NEA Cymru, yn Ysgrifennydd Grŵp a nodyn ynghylch cynlluniau i gwrdd eto pan fydd yr ymgynghoriad ar y cynllun tlodi tanwydd newydd ar gyfer Cymru ar agor.

## Cyfarfod 2.

***Dyddiad y cyfarfod:*** 25 Ionawr 2021 (Ar-lein ar Zoom)

***Yn bresennol:***

**Michael Anderson** (Ofgem), **Paula Burnell** (Dŵr Cymru), **Jessica Cook** (NEA), **Matt Copeland** (NEA), **Phil Dawson** (E.ON), **Ryland Doyle** (Swyddfa Mike Hedges AS), **Claire Durkin** (NEA), **Bethan Edwards** (Marie Curie), **Steffan Evans** (Sefydliad Bevan), **Brian Hart** (NEA), **Sam Hughes** (Cyngor ar Bopeth), **Samantha James** (Dŵr Cymru), **Adam Jones** (Iechyd Cyhoeddus Cymru), **Crispin Jones** (Arbed am Byth), **George Jones** (Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru), **Liz Lambert** (Cyngor Caerdydd), **Simon Lannon** (Prifysgol Caerdydd), **Fflur Lawton** (Smart Energy GB), **Simone Lowthe-Thomas** (Asiantaeth Ynni Hafren Gwy), **Helen Parfitt** (Swyddfa Helen Mary Jones AS), **Faye Patton** (Gofal ac Atgyweirio Cymru), **Lee Phillips** (Gwasanaeth Arian a Phensiynau), **Neville Rookes** (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), **Bethan Proctor** (Cymru Tai Cymunedol), **Ben Saltmarsh** (Ysgrifenyddiaeth/NEA Cymru), **Adam Scorer** (NEA), **Ben Sears** (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), **Dora Szalkay** (Swyddfa Huw Irranca-Davies AS), **Gareth Thomas** (NEA Cymru), **Tim Thomas** (Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl), **Jack Wilkinson-Dix** (Ymddiriedolaeth Arbed Ynni), **Nigel Winnan** (Cyfleustodau Cymru a’r Gorllewin)

***Crynodeb o’r materion a drafodwyd***:

**Ffocws:**

Yn y cyfarfod hwn canolbwyntiwyd ar gynlluniau drafft Llywodraeth Cymru i fynd i’r afael â thlodi tanwydd rhwng nawr a 2035.

Yn dilyn ymgynghoriad a barodd dri mis, roedd y cyfarfod yn gyfle i randdeiliaid fyfyrio ar eu hymatebion a rhannu barn am yr hyn sydd angen ei wneud i gefnogi pobl ledled Cymru sy'n ei chael hi'n anodd mewn cartrefi oer, anniddos, afiach.

Roedd y cyfarfod hefyd yn cynnwys y cyfarfod cyffredinol blynyddol ar gyfer eleni.

Cafwyd cyflwyniad gan Ben Saltmarsh, Pennaeth NEA Cymru:

- crynodeb o gynigion allweddol Llywodraeth Cymru (yn absenoldeb y Gweinidog a swyddogion Llywodraeth Cymru, a anfonodd eu hymddiheuriadau);
- barn NEA mewn ymateb, gan ganolbwyntio ar:
  - dargedau - gan gynnwys galwadau ar i Lywodraeth Cymru gyflawni ei rhwymedigaethau statudol i nodi cerrig milltir interim;
  - camau gweithredu - yn gysylltiedig â 'Rhaglen Cartrefi Cynnes', 'Gwasanaethau Cyngor a Chymorth o ran Ynni', 'Monitro, gwerthuso ac adrodd', a 'Gweithio gyda phartneriaid'; o alinio ag amcanion ehangach y Llywodraeth - yn enwedig iechyd y cyhoedd a datgarboneiddio.

Cafwyd cyflwyniad gan Sam Hughes, Ymchwilydd Polisi, Cyngor ar Bopeth, ar:

- ymateb Cyngor ar Bopeth, gan ganolbwyntio ar:
  - dargedau - gan gynnwys yr angen am gerrig milltir interim a sylfaen statudol, targed EPC, a rhwymedigaeth ar lefel leol;
  - camau gweithredu allweddol - yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau cymorth tlodi tanwydd, monitro a gwerthuso, a meysydd y tu allan i bwerau uniongyrchol Llywodraeth Cymru;
  - camau tymor byr ychwanegol posibl - ynghylch y Rhaglen Cartrefi Cynnes, mesurau penodol i gefnogi'r rheini sydd mewn tlodi tanwydd difrifol, y Gronfa Cymorth Dewisol, ECO-Flex, ac amcangyfrifon tlodi tanwydd;
  - cynigion newydd - gan gynnwys pryderon ynghylch y mesur oriau cilowat a chynigion ynghylch pobl dan 25 oed;
- i gloi, rhannwyd linc i ystadegau diweddar ar COVID-19, tlodi tanwydd a Chymru.

Cafwyd cyflwyniad gan Dr Steffan Evans, Swyddog Polisi ac Ymchwil, Sefydliad Bevan, ar:

- prif fyfyrion o ymateb Sefydliad Bevan, gan gynnwys:
  - mesur incwm gweddilliol ar gyfer tlodi tanwydd o beth arall y gellir ei wneud i ganolbwyntio ar incwm a chostau tanwydd (yn ogystal ag effeithlonrwydd ynni)
- canlyniadau arolwg diweddar gan YouGov, yn ymwneud ag effeithiau'r pandemig; *a*
- galwadau am system fudd-daliadau i Gymru.

Cafwyd cyflwyniad gan Adam Jones, Uwch-swyddog Polisi, Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), ar:

- drosolwg byr o ymateb ICC; *a*
- gwaith mae ICC yn ei wneud ar hyn ar effeithlonrwydd ynni ac iechyd yng Nghymru, ac amlygir tystiolaeth ac argymhellion allweddol ar gyfer polisi ac ymchwil yn y dyfodol.

Atebwyd cwestiynau.

Cafwyd cyflwyniad gan Samantha James, Rheolwr Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cwsmeriaid Domestig, a Paula Burnell, Rheolwr Cwsmeriaid Bregus, Dŵr Cymru, ar:

- gefnogaeth gyfredol Dŵr Cymru i gwsmeriaid sydd dan amgylchiadau bregus;
- yr heriau sy'n wynebu cwsmeriaid oherwydd COVID ac ymateb Dŵr Cymru;
- y gorgyffwrdd rhwng tlodi dŵr a thlodi tanwydd; *a*
- throsolwg o'r diwydiant, gan gynnwys Adolygiad Fforddiadwyedd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

Atebwyd cwestiynau. Daeth y cyfarfod i ben gyda'r cyfarfod cyffredinol blynyddol ar gyfer eleni, gan gynnwys ailethol, yn ddiwrthwynebiad, Mark Isherwood MS yn Gadeirydd y grŵp trawsbleidiol a Ben Saltmarsh, Pennaeth NEA Cymru yn Ysgrifennydd Grŵp. Cytunwyd y bydd 'Adroddiad Gwaddol' cryno yn cael ei gynhyrchu i'w ddefnyddio ar ôl etholiad y Senedd, os caiff y grŵp trawsbleidiol hwn, neu grŵp cyfatebol, ei ailsefydlu.

## 3. Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Fel y'u manylir uchod.

# Datganiad Ariannol Blynyddol

**Dyddiad: 1 Chwefror 2021**

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwyd Ynni**

**Cadeirydd:**Mark Isherwood AS

**Ysgrifenyddiaeth:**

Adam Scorer (NEA) Dros dro o 1 Tachwedd 2019

Ben Saltmarsh (NEA Cymru) o 23 Gorffennaf 2020

| | | |
|---|---|---|
| Treuliau'r Grŵp. | Dim. | £0.00 |
| **Costau'r holl nwyddau** | Ni phrynwyd nwyddau. | £0.00 |
| **Buddiannau a gafodd y grŵp neu Aelodau unigol gan gyrff allanol** | Ni chafwyd buddiannau. | £0.00 |
| **Unrhyw gymorth ysgrifenyddol neu gymorth arall** | Ni chafwyd cymorth ariannol. Darparwyd ysgrifenyddiaeth gan NEA Cymru | £0.00 |
| **Gwasanaethau a ddarparwyd i'r Grŵp fel lletygarwch.**<br><br>Amherthnasol. Cynhaliwyd y ddau gyfarfod ar-lein ar Zoom. | | |
| **Dyddiad** | **Disgrifiad o'r darparwr a'i enw** | **Cost** |
| | | £0.00 |
| | **Cyfanswm y gost** | £0.00 |